Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Nia Elen Walker
Ysgol Y Garreg
Llanfrothen
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LJ

11/06/2025

Annwyl Nia Elen Walker

**Ymweliad Interim:** Mai 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Y Garreg yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu

- Mae arweinwyr wedi darparu ystod o brofiadau dysgu proffesiynol buddiol i athrawon er mwyn yn eu cefnogi i ddwysáu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o ddulliau addysgu effeithiol a sut i herio dysgu’r disgyblion.
- Mae athrawon yn cynnal sesiynau cynnydd buddiol yn rheolaidd, gan drafod cyrhaeddiad pob disgybl ynghyd â’r gefnogaeth a’r her sydd ei angen arnynt i gyflawni’n dda. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o anghenion pob disgybl sy’n eu cynorthwyo i gynllunio a darparu profiadau dysgu bwriadus ar draws y meysydd dysgu ar eu cyfer.
- Mae staff yn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O ganlyniad i gydweithio buddiol rhwng athrawon a staff cymorth, mae amrywiol strategaethau dysgu cynhwysol yn cael eu darparu gan sicrhau fod disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

- Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi i gefnogi a herio'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ac yn trafod eu cynnydd yn aeddfed. Wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o sut i werthuso a gwella eu dysgu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu profiadau dysgu. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd herio eu hunain a maent yn awyddus i gwblhau tasgau yn annibynnol, pan yn briodol. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn annog a chefnogi ei gilydd yn effeithiol.

## Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rôl arweinyddol er mwyn cyfrannu at waith a bywyd ehangach yr ysgol

- Mae arweinwyr wedi sefydlu cyngor ysgol sy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac mae'r aelodau yn eu cymryd o ddifri. Maent yn ystyried syniadau eu cyd-ddisgyblion wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio yr holl ddisgyblion, fel trefnu taith addysgol diwedd blwyddyn.
- Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod y materion bwriadus yn aeddfed. Maent yn cofnodi eu penderfyniadau ac yn clustnodi camau i'w gweithredu yn gydwybodol. Maent yn hysbysebu yr holl ddisgyblion a'r rhieni o'r gweithgareddau maent wedi eu trefnu yn llwyddiannus, er enghraifft ar lafar, drwy arddangos posteri a thrwy anfon llythyrau gartref. Maent hefyd yn cyfathrebu canlyniadau eu gweithredoedd yn llwyddiannus gyda'r holl bartneriaid.
- Mae arweinwyr yn trefnu bod y disgyblion hŷn yn gyfrifol am ysgrifennu cylchlythyr cynhwysfawr ar ddiwedd bob tymor, sy'n crynhoi newyddion yr ysgol yn ddifyr i'r darllenydd. Dan oruchwyliaeth staff, mae disgyblion yn dosbarthu'r cylchlythyr i dai cyfagos ac i'r caffi lleol, sy'n adeiladu ar yr ymdeimlad o gymdeithas ac o berthyn i'w hardal leol.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod llais pob disgybl yn rhan o benderfyniadau yr ysgol gyfan. Maent yn darparu blwch syniadau er mwyn i ddisgyblon gynnig syniadau a sylwadau yn anhysbys. Yn ogystal, maent yn cynnal sesiynau trafod ysgol gyfan pan yn berthnasol, fel pan yn casglu syniadau am sut i hybu'r iaith Gymraeg gyda'u ffrindiau ar draws yr ysgol.
- Mae staff wedi clustnodi dyletswyddau ar gyfer y disgyblion er mwyn datblygu eu rolau arwain. Mae disgyblion yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol gan gyfrannu at rediad a threfniant yr ysgol yn fedrus.
- Mae staff yn sicrhau bod llais pob disgybl yn cael ei gynnwys pan yn cynllunio themâu tymhorol. Mae athrawon yn trafod syniadau gyda'r disgyblion gan gyfeirio yn aml at ddigwyddiadau cyfredol yn lleol ac yn fyd eang. Mae'r disgyblion hŷn yn cofnodi eu syniadau a maent y cael eu cynnwys yng ngweithgareddau'r tymor, fel bo'n briodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612198

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol